



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Complete Care and Enablement Services Limited

**Uned 74
Greenfield Business Centre
Greenfield
Treffynnon
CH8 7GR**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/07/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Complete Care and Enablement Services Limited

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Complete Care and Enablement Services Ltd aCareTech Community Services Limited
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth gael ei arolygu o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth, a chaiff eu hannibyniaeth ei hyrwyddo a chaiff canlyniadau cadarnhaol eu diwallu. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn cynnig cymorth yn ôl y gofyn. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn rhoi gwybod i'r staff am hoff bethau, cas bethau a dewisiadau'r bobl. Caiff y bobl gyfleoedd i roi cynnig ar bethau newydd, i fynd i weithio, i gymryd rhan mewn grwpiau cymdeithasol ac i feithrin cydberthnasau a chyfeillgarwch cadarnhaol ag eraill. Cânt gymorth i ofalu am eu cartrefi, i gyllidebu ac i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Mae'r rheolwr yn gefnogol ac yn hawdd mynd ato ac mae'n annog y bobl ac yn cefnogi'r staff i godi unrhyw faterion ag ef. Mae'r staff cymorth yn cael hyfforddiant i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac mae systemau a phrosesau ar waith i barhau i'w wella.

Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a chaiff eu dewisiadau eu parchu gan y staff cymorth. Cânt gyfleoedd i eistedd gyda'r staff cymorth ac eraill sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth i drafod yr hyn sy'n mynd yn dda a beth sydd angen ei newid. Caiff adolygiadau eu cynnal ac mae'r bobl yn gwneud penderfyniadau am eu dyfodol. Dywedodd un person wrthym ei fod yn cael sesiynau gweithwyr allweddol i siarad am yr hyn sy'n gweithio, ddim yn gweithio, ei nodau a'i obeithion i'r dyfodol. Mae'r bobl yn deall eu tenantiaeth ac yn cael cymorth i gyllidebu. Maent yn ymwneud â'r trefniadau i ofalu am eu cartrefi eu hunain a'u cadw'n lân ac yn daclus. Gall y bobl ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus yn annibynnol i deithio i wahanol lefydd gan gynnwys gwaith a grwpiau cymdeithasol.

Caiff anghenion llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu diwallu. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn nodi pa gymorth mae'r bobl am ei gael fel y gallant fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r bobl a'r staff cymorth yn siarad am ganlyniadau a chaiff hynny ei gofnodi a'i fonitro, a chaiff cyflawniadau'r unigolion eu dathlu. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cwblhau teithiau cerdded nodedig i godi arian i elusennau, golchi ceir a mynd ar wyliau. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol fod y bobl yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael ar hyn o bryd ac *"it is clear that the individual's outcomes are being promoted and actioned"*. Dywedodd y staff cymorth eu bod wrth eu bodd yn gweld cynnydd y bobl. Caiff ffyrdd mwy iach o fyw eu hannog a chaiff apwyntiadau iechyd eu gwneud a'u mynychu yn ôl yr angen. Gall y bobl wneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus ac maent wedi meithrin cydberthnasau a chyfeillgarwch cadarnhaol ag eraill.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae'r bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac y gallant godi materion â'r rheolwr. Mae'r staff cymorth yn eu trin â pharch ac yn tawelu eu meddyliau ac yn eu hannog i siarad am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu. Maent yn cael hyfforddiant ac mae polisi ar waith er mwyn iddynt ei ddilyn.

Mae'r bobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain sy'n eu cefnogi i gyflawni eu llesiant. Mae'r bobl yn cael gwneud dewisiadau am y cartref y maent yn byw ynddo a sut y caiff ei addurno a'i gynnal. Cânt eu cynnwys mewn trafodaethau o ran pwys y maent yn byw gyda nhw a'u cydnawsedd.

Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynllun personol cywir a chyfredol am sut y maent am gael eu cefnogi. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar y person, ei hoff bethau a'i gas bethau, a'i ddewisiadau. Caiff y bobl eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio sut, pryd maent am gael eu cefnogi, a gyda phwy. Mae'r cynlluniau personol yn y broses o gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn casglu'r wybodaeth berthnasol i gyd.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r safon sydd ei hangen arnynt drwy wasanaeth sy'n eu cynnwys ac sy'n ystyried eu dymuniadau personol, eu dyheadau, ac unrhyw risgiau. Gwnaethom siarad â'r staff cymorth, a gwnaethant ddweud wrthym am y bobl a'r hyn y maent yn ei wneud, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn eu cynlluniau personol. Caiff y bobl gyfle i gwrdd â'r staff cymorth bob mis i siarad am yr hyn y maent am ei wneud neu am unrhyw newidiadau y maent am eu gwneud. Caiff canlyniadau eu cofnodi'n glir, gan gynnwys pa gymorth mae'r bobl am ei gael, y camau a gymerir i gyflawni eu nodau a sut mae hyn wedi newid eu bywydau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r staff cymorth yn cynnig cysondeb ac yn defnyddio dull rhagweithiol wrth helpu'r bobl i gyflawni eu nodau. Caiff y bobl eu hannog i roi cynnig ar bethau newydd ac i feddwl amdanynt, ac mae'r staff yn eu cefnogi i wneud hynny mewn ffordd mor ddiogel â phosibl. Dywedodd y staff wrthym nad ydynt byth yn dweud 'na' ond maent yn edrych ar yr holl bosibiliadau o ran yr hyn y gall y bobl ei wneud ac yna yn cynllunio ar gyfer hynny.

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant emosiynol a meddyliol, a'u datblygiad personol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y rhai y maent yn byw gyda nhw ac yn gofalu am ei gilydd. Mae ganddynt gydberthnasau a chyfeillgarwch cadarnhaol â phobl eraill. Maent yn gallu gwireddu eu potensial a gwneud pethau sydd o bwys iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Er enghraifft, mynd i'r gwaith, ymwneud â chlybiau cymdeithasol a bod yn rhan o'u cymuned. Caiff y bobl eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ar gyfer eu dyfodol a chânt eu paratoi a'u cefnogi i symud ymlaen i fyw yn fwy annibynnol.

Mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill ar gael i'r bobl. Cânt eu hannog i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Caiff ffyrdd mwy iach o fyw eu hyrwyddo gan y staff cymorth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hunanfeddyginiaethu ac yn mynd i ddosbarthiadau colli pwysau ac yn falch o'u cyflawniadau. Caiff apwyntiadau eu gwneud a'u mynychu gyda'r staff cymorth os bydd y bobl yn dymuno.

Mae'r darparwr yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae polisi ar waith i'r staff ei ddilyn ac maent yn cael hyfforddiant. Mae Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n cynnwys staff sy'n cael eu hyfforddi a'u goruchwylio'n dda. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ac mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y trefniadau recriwtio a chaiff eu dewisiadau eu cydnabod. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael llawer o hyfforddiant ac mae'r cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau hyn. Maent yn cael sesiynau goruchwylio un i un sy'n rhoi cyfle iddynt drafod unrhyw faterion. Caiff y gwasanaeth ei reoli a'i arwain yn dda. Mae'r adborth gan y bobl, y gweithwyr proffesiynol a'r staff cymorth yn gadarnhaol ar y tîm rheoli sy'n ymatebol ac yn gefnogol iddynt. Dywedodd y staff cymorth wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato a'u bod yn teimlo bod y rheolwr yn gwrando arno.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddiraffferth. Mae'r Datganiad o Ddiben a'r polisiâu a'r gweithdrefnau yn fanwl ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Maent yn monitro fod y bobl yn cael gwasanaeth da drwy gael gafael ar eu hadborth. Caiff y bobl eu cynnwys wrth roi gwybod i eraill am yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud ac maent yn rhannu eu profiadau gyda nhw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis ac yn cwblhau adroddiadau sicrhau ansawdd i wneud yn siwr bod y gwasanaeth yn gwella'n barhaus. Caiff cwynion eu cofnodi a chaiff sylwadau cadarnhaol eu derbyn, gan gynnwys gan weithwyr proffesiynol. Pan ofynnwyd beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, dywedodd y staff cymorth wrthym am y cynnydd a wna a'i fod bob amser yn annog y bobl i symud yn eu blaen. Gwnaethant hefyd ddweud *“everything is a possibility, here to grow, we are told not to stagnate”* ac mae hyn yn cynnwys y bobl a'r staff. Dywedodd y staff cymorth wrthym ei fod yn ffrainc cael cefnogi'r bobl. Mae pawb yn cael eu trin yn yr un ffordd, a gwrandewir ar bawb, a chaiff syniadau a meddyliau eu hannog.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 25/09/2023